**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Housing/TAN1

At: Penaethiaid Cynllunio
(Copi at: PINS & HBF)

2 Mai 2018

Annwyl Gydweithiwr,

Mewn ymateb i'r sefyllfa bresennol o safbwynt y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai a'r sefyllfa gysylltiedig o safbwynt cyflawni'r gofynion o ran tai sydd ynghlwm wrth Gynlluniau Datblygu Lleol, rwyf wedi penderfynu cynnal 'cais am dystiolaeth' a hefyd adolygiad eang ei gwmpas o gyflenwi tai drwy'r system gynllunio.

Bydd y 'cais am dystiolaeth' yn edrych ar y berthynas rhwng proses y Cynlluniau Datblygu Lleol, mesur y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai a'r camau i'w cymryd ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg mewn modd trefnus. Bydd yn creu cyfle i bawb perthnasol, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r diwydiant adeiladu tai, gyflwyno cynigion, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer mynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u codi o safbwynt y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai.

Rwy'n ymwybodol o'r ffaith bod y gofyn i ddarparu tystiolaeth ynghylch cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn achosi heriau i lawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Er ei bod yn hanfodol sicrhau gwaith paratoi cynllun da a chreu lleoedd er mwyn creu cyflenwad digonol o dai, mae'r angen i gadw at y fethodoleg o safbwynt tir am 5 mlynedd yn ei gwneud hi'n anodd cyflawni canlyniadau cynaliadwy a da mewn rhai achosion.

Er mwyn lliniaru rhai o'r pwysau y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu hwynebu wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio tybiannol, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar baratoi ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol a'i gwneud hi'n bosibl i'r 'cais am dystiolaeth' ystyried y materion, rwy'n cynnal ymgynghoriad a fydd yn amlinellu fy mwriad i ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 gydol cyfnod yr adolygiad a amlinellir uchod. Mae'r paragraff hwn yn nodi y dylai diffyg cyflenwad o dir am 5 mlynedd fod yn ystyriaeth sylweddol wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio. Cychwynnodd yr ymgynghoriad ar 10 Mai 2018 a bydd yn dod i ben ar 21 Mehefin 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio y bydd yr holl randdeiliaid yn ymateb yn ffafriol i'r ymgynghoriad ac yn manteisio ar y cyfle i gyfrannu'n agored ac yn bositif at y 'cais am dystiolaeth' a'r adolygiad eang ei gwmpas er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn y system bresennol. Bydd hyn yn creu cyfle i sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at y gwaith o gyflenwi'r cartrefi sydd eu hangen ar Gymru yn y lleoliadau mwyaf addas.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs